Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 11.09.23 |
| **Pwnc / Subject:** | **Strategaeth Tlodi Plant ddrafft Cymru 2023** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil 2022 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion pob oed, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Mae Estyn yn croesawu Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2023. Mae'n amlinellu amcanion a blaenoriaethau clir i liniaru effaith tlodi, gan gynnwys yr effaith ar gyrhaeddiad addysgol. Mae'r strategaeth yn amlinellu'n glir yr heriau rydym yn eu hwynebu yng Nghymru ar ôl y pandemig, gydag 1 o bob 4 plentyn yn byw mewn tlodi incwm cymharol.

At ei gilydd, mae'r ddogfen yn glir a hygyrch. Mae argaeledd fersiwn o'r ddogfen sy'n 'hawdd ei darllen' ac ar gyfer 'pobl ifanc' yn cefnogi hyn yn effeithiol. Gallai ychydig o fân addasiadau i'r brif fersiwn ei gwneud hyd yn oed yn fwy hygyrch, er enghraifft defnyddio pwyntiau bwled wrth restru ystadegau yn y cyflwyniad. Efallai byddai Llywodraeth Cymru eisiau ystyried sut mae'r blaenoriaethau a'r amcanion wedi'u rhifo a'u cyflwyno ym mhrif ddogfen yr ymgynghoriad, hefyd. Mae hyn yn llawer cliriach yn fersiwn y person ifanc.

Mae rôl Estyn i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol yn glir. Byddwn yn parhau i arolygu darparwyr ac yn cofnodi beth sy'n gweithio'n dda. Credwn y bydd rhannu arfer orau yn helpu cryfhau gwybodaeth darparwyr am yr hyn sy'n gweithio'n dda ac yn helpu ffurfio arfer ledled Cymru.

Ceir synergedd clir rhwng yr amcanion o 'Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb' a'r strategaeth, er enghraifft y cyfeiriadau at ddatblygu ysgolion bro i liniaru effaith tlodi.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**C1. Ydych chi'n cytuno bod y cyflwyniad i'r strategaeth ddrafft yn glir a hygyrch?**

Ydw ☐

Ansicr ☒

Nac ydw ☐

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y cyflwyniad i'r strategaeth?:

At ei gilydd, mae'r cyflwyniad yn glir. Mae cyflwyno ystadegau perthnasol o dystiolaeth ddiweddar yn helpu amlygu'r materion yn dda. Efallai byddai'r paragraffau sy'n cynnwys yr ystadegau hyn yn haws i ddarllenwyr eu dehongli pe baent wedi'u cyflwyno mewn fformat pwyntiau bwled, neu fel ffeithluniau.

**C2a. Wrth ystyried y gofyniad o dan y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) i Lywodraeth Cymru osod amcanion ar gyfer y cyfraniad tuag at ddileu tlodi plant, ydych chi'n cytuno y dylai Amcan 1 fod yn un o amcanion y strategaeth ddrafft?**

Ydw ☒

Ansicr ☐

Nac ydw ☐

**C2b. Ydy'r wybodaeth am yr hyn rydym ni wedi'i glywed a beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran Amcan 1 yn glir a hygyrch?**

Ydy ☒

Ansicr ☐

Nac ydy ☐

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynnwys yn gysylltiedig ag Amcan 1?:

| |
|---|
| Rydym yn cytuno bod Amcan 1 yn bwysig i'w gynnwys yn y strategaeth. Mae'r wybodaeth a'r camau gweithredu ar gyfer yr amcan hwn wedi eu mynegi'n glir ac yn hygyrch o fewn y ddogfen. |

**C3. Ydych chi'n cytuno y dylai Blaenoriaeth 1 fod yn flaenoriaeth ar gyfer y strategaeth ddrafft?**

Ydw ☒

Ansicr ☐

Nac ydw ☐

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr hyn rydym yn dweud y byddwn yn ei wneud i fwrw ymlaen â gwaith o dan Flaenoriaeth 1?:

| |
|---|
| Rydym yn cydnabod bod lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol yn flaenoriaeth allweddol. Trwy ein gwaith, rydym yn amlygu arfer gref ac yn rhannu astudiaethau achos perthnasol.<br><br>Rydym yn cytuno bod cyflymu gwaith gyda phartneriaid gwella ysgolion yn bwysig. Yn ogystal â gwneud gwaith perthnasol, mae'n bwysig eu bod yn amlygu negeseuon allweddol i'w rhannu ag ysgolion, lleoliadau a darparwyr eraill, ac yn gwerthuso'r effaith a gaiff eu gwaith ar arfer mewn ysgolion a chynnydd dysgwyr. |

**C4a. Wrth ystyried y gofyniad o dan y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) i Lywodraeth Cymru osod amcanion ar gyfer y cyfraniad tuag at ddileu tlodi plant, ydych chi'n cytuno y dylai Amcan 2 fod yn un o amcanion y strategaeth ddrafft?**

Ydw ☒

Ansicr ☐

Nac ydw ☐

**C4b. Ydy'r wybodaeth am yr hyn rydym ni wedi'i glywed a beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran Amcan 2 yn glir a hygyrch?**

Ydy ☒

Ansicr ☐

Nac ydy ☐

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynnwys yn gysylltiedig ag Amcan 2?:

| |
|---|
| Rydym yn cytuno y dylai Amcan 2 fod yn amcan a bod y testun yn glir a hygyrch. |

**C5. Ydych chi'n cytuno y dylai Blaenoriaeth 2 fod yn flaenoriaeth ar gyfer y strategaeth ddrafft?**

Ydw ☒

Ansicr ☐

Nac ydw ☐

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr hyn rydym yn dweud y byddwn yn ei wneud o dan Flaenoriaeth 2?:

| |
|---|
| |

**C6a. Wrth ystyried y gofyniad o dan y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) i Lywodraeth Cymru osod amcanion ar gyfer y cyfraniad tuag at ddileu tlodi plant, ydych chi'n cytuno y dylai Amcan 3 fod yn un o amcanion y strategaeth ddrafft?**

Ydw ☒

Ansicr ☐

Nac ydw ☐

**C6b. Ydy'r wybodaeth am yr hyn rydym ni wedi'i glywed a beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran Amcan 3 yn glir a hygyrch?**

Ydy ☒

Ansicr ☐

Nac ydy ☐

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynnwys yn gysylltiedig ag Amcan 3?:

Rydym yn cytuno bod yr amcan hwn yn cysylltu'n dda â'r strategaeth Ysgolion Bro a strategaethau eraill, fel Lleihau Cost y Diwrnod Ysgol.

**C7. Ydych chi'n cytuno y dylai Blaenoriaeth 3 fod yn flaenoriaeth ar gyfer y strategaeth ddrafft?**

Ydw ☒

Ansicr ☐

Nac ydw ☐

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr hyn rydym yn dweud y byddwn yn ei wneud o dan Flaenoriaeth 3?:

Byddai'n fuddiol amlygu'n eglur y strategaeth Ysgolion Bro ym Mlaenoriaeth 3, ochr yn ochr â rhai o'r mentrau a'r gweithgarwch pwysig y mae'r strategaeth hon yn eu cwmpasu.

**C8a. Wrth ystyried y gofyniad o dan y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) i Lywodraeth Cymru osod amcanion ar gyfer y cyfraniad tuag at ddileu tlodi plant, ydych chi'n cytuno y dylai Amcan 4 fod yn un o amcanion y strategaeth ddrafft?**

Ydw ☒

Ansicr ☐

Nac ydw ☐

**C8b. Ydy'r wybodaeth am yr hyn rydym ni wedi'i glywed a beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran Amcan 4 yn glir a hygyrch?**

Ydy ☐

Ansicr ☒

Nac ydy ☐

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynnwys yn gysylltiedig ag Amcan 4?:

Rydym yn awgrymu y dylai'r geiriad sy'n cyfeirio at ein gwaith fod fel a ganlyn: 'Mae arolygiadau Estyn yn ystyried pa mor effeithiol y mae ysgolion a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion a gwasanaethau llywodraeth leol yn lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol'. .

**C9. Ydych chi'n cytuno y dylai Blaenoriaeth 4 fod yn flaenoriaeth ar gyfer y strategaeth ddrafft?**

Ydw ☒

Ansicr ☐

Nac ydw ☐

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr hyn rydym yn dweud y byddwn yn ei wneud o dan Flaenoriaeth 4?:

**C10a. Wrth ystyried y gofyniad o dan y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) i Lywodraeth Cymru osod amcanion ar gyfer y cyfraniad tuag at ddileu tlodi plant, ydych chi'n cytuno y dylai Amcan 5 fod yn un o amcanion y strategaeth ddrafft?**

Ydw ☒

Ansicr ☐

Nac ydw ☐

**C10b. Ydy'r wybodaeth am yr hyn rydym ni wedi'i glywed a beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran Amcan 5 yn glir a hygyrch?**

Ydy ☐

Ansicr ☒

Nac ydy ☐

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynnwys yn gysylltiedig ag Amcan 5?:

| |
|---|
| Mae'r fersiwn hygyrch yn glir iawn. Mae'r brif ddogfen yn llai hygyrch oherwydd ystod eang yr agweddau sydd wedi'u cynnwys.<br><br>Mae'r hyperddolenni yn fuddiol ac yn hanfodol gan fod llawer o dermau allai fod yn anghyfarwydd i'r darllenydd. Er enghraifft, mae'r dolenni'n arwain y darllenydd at wybodaeth ynglŷn â'r byrddau a'r pwyllgorau amrywiol a amlinellir yn yr adran hon o'r papur, ac yn galluogi darllenwyr i ddeall 'dull Marmot' yn well, gan fynd i'r afael ag annhegwch trwy weithredu ar benderfynyddion cymdeithasol iechyd. |

**C11. Ydych chi'n cytuno y dylai Blaenoriaeth 5 fod yn flaenoriaeth ar gyfer y strategaeth ddrafft?**

Ydw ☒

Ansicr ☐

Nac ydw ☐

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr hyn rydym yn dweud y byddwn yn ei wneud o dan Flaenoriaeth 5?:

Rydym yn cytuno bod y ddolen at y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn fuddiol yma.

Byddai'n werthfawr esbonio ychydig o dermau yn yr adran hon, er enghraifft trwy esbonio dull 'Cymunedau Ymarfer'.

**C12. Ydych chi'n cytuno bod yr adran sy'n amlinellu sut byddwn yn monitro ac yn adrodd ar ein cynnydd yn glir a hygyrch?**

Ydw ☒

Ansicr ☐

Nac ydw ☐

**Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr hyn rydym yn ei ddweud am sut byddwn yn monitro ac yn adrodd ar ein cynnydd?:**

Rydym yn cytuno ei bod yn fuddiol amlinellu dangosyddion addas fel cerrig milltir cenedlaethol.

Rydym yn meddwl y byddai'n fuddiol cyfeirio'n eglur at y ddogfen ddiweddar 'Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd' sy'n cyfeirio'n glir at yr angen i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad. Mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio'n glir at yr angen i werthuso effaith strategaethau ar gynnydd grwpiau o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth a gwybodaeth.

**C13. Ydy'r Strategaeth Tlodi Plant yn ymateb yn ddigonol i'r croestoriad rhwng tlodi plant â nodweddion gwarchodedig (fel ethnigrwydd, rhywedd, anabledd a rhywioldeb) a phrofiad o anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Ydy ☐

Ansicr ☒

Nac ydy ☐

**Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?:**

Rydym yn meddwl y byddai paragraff ychwanegol yn y cyflwyniad yn fuddiol i amlinellu cymhlethdod croestoriadedd yn fwy eglur. Rydym hefyd yn meddwl bod angen gwneud cyfeiriad cryfach at bobl / disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ochr yn ochr â'r cyfeiriad at y rhai â nodweddion gwarchodedig, fel pobl niwrowahanol.

Byddai hefyd yn fuddiol casglu barn disgyblion a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

**C14. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai cynnig y Strategaeth Tlodi Plant yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?:**

Nid ydym yn nodi unrhyw effeithiau negyddol o gynnig y strategaeth ar y Gymraeg, gan gynnwys ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**C15. Hoffem wybod eich barn ar yr Asesiad Effaith Integredig.**

**Oes unrhyw feysydd penodol lle mae angen mwy o fanylion, yn eich barn chi, neu unrhyw faterion penodol yr ydych yn dymuno'u hamlygu a allai effeithio ar grŵp penodol?:**

Rydym yn nodi bod rhieni disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, neu'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn teimlo y gwahaniaethir yn eu herbyn. Gallai fod yn fuddiol ystyried a chynnwys barn pobl / pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

**C16. Hoffem wybod eich barn ar yr Asesiad Effaith ar Hawliau Plant.**

**Oes unrhyw feysydd penodol lle mae angen mwy o fanylion, yn eich barn chi, neu unrhyw faterion penodol yr ydych yn dymuno'u hamlygu a allai effeithio ar blant?:**

Rydym yn nodi bod rhieni disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, neu'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn teimlo y gwahaniaethir yn eu herbyn. Gallai fod yn fuddiol ystyried a chynnwys barn pobl / pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

**C17. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd arnynt:**

| |
|---|
| Gallai rhif pob amcan ac wedyn blaenoriaeth gysylltiedig arwain at ddryswch i rai darllenwyr. Mae'r fersiwn hawdd ei darllen yn osgoi hyn trwy gael pob amcan ochr yn ochr â'i flaenoriaeth, sy'n gliriach. |